
Met Office



# Rhyfelwyr y tywydd

**Trosolwg**

"Sut ydych chi'n mynd i'r afael â heriau'r tywydd? Drwy'r gweithgaredd hwn, byddwch yn ystyried sut y gall data a rhagolygon y tywydd gael eu defnyddio i gefnogi'ch ardal leol a bod o fudd iddi, gan feddwl am gymuned, cydweithredu a gweithredu cymdeithasol.

## Camau'r gweithgaredd

**01**

**Gwaith ymchwil**


Pa effeithiau y gall y tywydd eu cael ar fywydau a swyddi pobl yn eich cymuned? A yw'n effeithio ar rai pobl yn fwy nag eraill? Efallai yr hoffech ymchwilio i baill, tonnau gwres, cyfnodau oer, glaw, gwyntoedd cryfion neu rywbeth arall. Sut y gellir defnyddio rhagolygon y tywydd i helpu pobl? Beth y gall pobl ei wneud i baratoi ar gyfer gwahanol fathau o dywydd?

**Amser angenrheidiol**

60 munud

**Deunyddiau angenrheidiol**

- Mynediad i'r we
- Deunyddiau creu poster



## 02 Casglu data

Gan ddefnyddio'r syniadau a gafodd eu casglu yn y cam blaenorol, crëwch holiadur i gyfweld â phobl yn eich cymuned leol a gofynnwch sut mae'r tywydd wedi effeithio ar eu bywydau neu eu swyddi yn y gorffennol. Gallai'r bobl hyn fod yn aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion, perchnogion busnesau lleol, neu unrhyw un arall yr hoffech eu gofyn. Pa gamau y gwnaethant eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a gafodd eu hachosi gan y tywydd hwn? Os na wnaethant unrhyw beth, pam? Beth allen nhw ei wneud yn y dyfodol i wneud pethau'n haws?

### Awgrym

Os yw eich ardal leol wedi profi digwyddiad tywydd garw yn ddiweddar, gallai hyn fod yn gyfle da i holi cwestiynau sy'n canolbwyntio ar un digwyddiad a effeithiodd ar nifer o bobl rydych chi'n eu hadnabod.



## 03 Dylunio

Defnyddiwch eich ymchwil a'r atebion o'ch holiadur i ddylunio ymgyrch a fydd yn dangos y mathau o heriau tywydd rydych wedi clywed sôn amdanyn nhw. Dylai hefyd gynnwys awgrymiadau ar gyfer delio â'r heriau hyn. Penderfynwch pwy yw eich cynulleidfa darged. I bwy fydd yr wybodaeth hon yn fwyaf defnyddiol? Ar bwy y mae'r math hwn o dywydd yn effeithio a sut? Pa wybodaeth y byddwch chi'n ei chynnwys? Dylech feddwl am ffyrdd o ddweud wrth eich cynulleidfa am y pethau y gall eu gwneud i atal y tywydd rhag cael effeithiau gwael ar ei hiechyd a'i lles, neu ddweud wrthi am y gwasanaethau lleol neu genedlaethol y gall eu defnyddio.

### Awgrym

Wrth ddylunio'ch ymgyrch, meddyliwch pa fath o gyfryngau y mae'ch cynulleidfa yn ei ddefnyddio fel arfer. Beth yw'r ffordd orau o'i chyrraedd? E.e gall tonnau gwres effeithio ar bobl hŷn, gallai poster yn y feddygfa neu hysbyseb ar y teledu gyrraedd mwy o bobl o'r genhedlaeth honno na fideo YouTube.

## 04 Creu

Crëwch eich ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a rhybuddio pobl yn eich cymuned leol i baratoi ar gyfer digwyddiadau tywydd. Byddwch yn greadigol! Efallai yr hoffech wneud poster, fideo, hysbyseb radio neu rywbeth arall. Cofiwch ddweud wrthynt ble y gallan nhw ddod o hyd i rybuddion swyddogol am dywydd garw a'i effeithiau!

Mae'r Swyddfa Dywydd yn darparu cynnwys addysg am ddim i gefnogi pobl ifanc rhwng 7 ac 14 oed i fod yn barod ar gyfer effeithiau'r tywydd a newid yn yr hinsawdd arnyn nhw a'u cymunedau. Dysgwch ragor yma: **www.metoffice.gov.uk/schools**

© Hawlfraint y Goron 2019, Y Swyddfa Dywydd